**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
**SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
**SeneddClimate@senedd.wales**
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

11 Ionawr 2023

Annwyl Julie,

Craffu ar gynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd


Diolch am eich llythyr, dyddiedig 9 Rhagfyr 2022, sy'n cadarnhau cyhoeddi'r adroddiad cynnydd ar gynllun addasu hinsawdd presennol Llywodraeth Cymru a'r Datganiad Terfynol deddfwriaethol (ar gyfnod cyntaf y Gyllideb Garbon ('y Datganiad Terfynol'). Mae'r Pwyllgor yn awyddus i fynd ar drywydd materion sy'n ymwneud â'r Datganiad Terfynol gyda chi yn y sesiwn graffu arfaethedig ar 9 Chwefror 2023.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r sesiwn i drafod y cynnydd tuag at gyflawni Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25) ('Cymru Sero Net'). Deallaf fod fframwaith monitro ac adrodd Cymru Sero Net yn caniatáu ar gyfer olrhain gweithrediad ac effeithiolrwydd polisïau. O'r herwydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai eich papur tystiolaeth ar gyfer y sesiwn yn cynnwys cynnydd tuag at weithredu pob un o'r polisïau a chrynodeb o'r cynnydd tuag at ddatblygu cynigion.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ohirio ei waith ar addasu hinsawdd nes bod canlyniad asesiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd o gynnydd a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ar gael.

Edrychwn ymlaen at gael eich tystiolaeth ysgrifenedig maes o law.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith